# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 7fed 2025 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Rita Jones, Iolo Evans, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Pritchard a'r Cyng. Elwyn Edwards

Cydymdeimlwyd a Rita Jones yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar.

Croesawyd Tim Smith, ymgynghorydd i Dee Valley Environmental Network CIC, i roi cyflwyniad ar gynllun Fferm Wynt Gaerwen. Rhannodd wybodaeth ychwanegol am effeithiau is-sain a llygredd plastigau sy'n gysylltiedig â chynllun o'r fath. Diolchwyd iddo am fynychu'r cyfarfod.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd mis Medi a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Gwynedd Jones yn datgan buddiant yng nghais cynllunio Fferm Wynt Gaerwen ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb Cyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Cyflwr y ffordd sy'n arwain at y fynwent yn Llandderfel – roedd y perchennog wedi cysylltu â'r Cyngor a chytunodd Maldwyn Jones i drafod ymhellach ar ran y Cyngor Cymuned.
ii) Canghennau coed yn dod dros y llwybr troed yn ystad Glan Tryweryn, Frongoch – cafwyd cadarnhad nid Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am y coed ac felly roedd angen gofyn i'r tirfeddianwr i'w torri.
iii) Gwrychoedd/coed rhwng Bryn Melyn a Pale Wood, Llandderfel angen eu torri'n ôl – roedd llythyr wedi mynd i berchennog y coed yn gofyn iddynt i'w torri.
iv) Roedd cais wedi cael ei anfon i'r Tim Glanhau Strydoedd i glirio'r sbwriel o'r gilfan fach sydd rhwng Tŷ Nant a Cynlas, Cefnddwysarn.
v) Roedd yr Adran Amgylcheddol wedi darganfod nad oedd y bocs at gyffordd Cletwr yn cael ei ddefnyddio ac felly y byddai'n bosib ei dynu i lawr.
vi) Roedd y cais am amserlen bws ger y lloches yng Nghefnddwysarn wedi cael ei anfon ymlaen i Wasanaeth Cludiant.
vii) Roedd ein hymholiad ynglyn pam nad oedd cyfyngiad cyflymder 20 m.y.a. ym mhentref Sarnau ac wrth ysgol Ffridd y Llyn, Cefnddwysarn, wedi cael ei yrru'n mlaen i Adran Draffig yng Nghaernarfon.
viii) Nid oedd yr Asiantaeth yn teimlo fod angen rhoi sylw i'r draen ar yr A494 o dan fferm Ty'n Fedw, Bethel ar hyn o bryd.
ix) Roedd yr Asiantaeth am ofyn i berchennog y gwrych, ger Thomas Motor Marts, i'w dorri'n nôl.
x) Gwrych Clwb Carafanau Cefnddwysarn – nid oedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi gweld unrhyw fater i achosi pryder ar hyn o bryd.
xi) Trwsio wal o flaen y lloches bws yng Nghefnddwysarn – roedd yr Asiantaeth wedi gofyn i weithlu Gwynedd wneud y gwaith cyn gynted â phosib.

b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – Cais mynwent St. Mark, Frongoch.
Adroddodd y clerc fod y coed wrth y tai wedi cael eu torri ac y byddai'n bosib cychwyn y gwaith o atgyweirio'r wal. Yn anffodus doedd y contractwr a oedd wedi rhoi'r pris gwreiddiol i wneud y llwybr troed yn rhydd i wneud y gwaith ac felly roedd y clerc wedi cysylltu â chontractwr arall. Roedd Cyngor Gwynedd wedi derbyn y pris newydd ac roedd John Emrys Davies am gychwyn y gwaith yn yr wythnosau nesa.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Hydref.

b) Amrywiol.
i) Parc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr - Digwyddiad Ymgynghori Aelodau Etholedig (Cynghorwyr). Gofynnwyd i'r clerc anfon yn nol atynt i nodi'r siom mae dim ond 24awr o rybudd a gafwyd am y digwyddiad a dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor dderbyn unrhyw wybodaeth am y cynllun.
ii) Partneriaeth Natur Gwynedd - rhaglen Cymunedau Gwyrdd Gwynedd.
ii) Comisiwn Ffiniau i Gymru – Cyflwyniad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth 2026-27.

v) Ceisiadau Cynllunio
a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
DNS / 3276735 – Fferm Wynt Gaerwen.
C25/0683/04/YA - Creu llwybr cerbyd 4x4 i mewn i'r clawdd i hwyluso rheolaeth goedwig a chynaeafu pren. Coed Tŷ Uchaf, Bethel, Llandderfel.

Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i gais Coed Tŷ Uchaf.

Cafwyd trafodaeth bellach i gais Fferm Wynt Gaerwen (Gwynedd Jones yn gadael yr ystafell) ac ystyrwyd yr adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd cyn gorffen gyda phleidlais i benderfynu ar ymateb y byddai'r Cyngor yn ei gyflwyno. Pleidleisiodd 6 yn erbyn y cynllun a dewisodd 3 i ymatal. Gofynnwyd i'r clerc ymateb yn nol i PEDW gan grynhoi'r sylwadau a chadarnhau gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynllun.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi).
ii) TWE.
iii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd, wedi ei dalu'n mis Medi).
iv) Gwasanaeth Torri Coed Tom Edwards (torri coed ym mynwent Frongoch, i'w dalu pan fydd y clerc yn derbyn yr anfoneb).

c) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd cais gan Theatr Bara Caws a chytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Ysbwriel yn cael ei adael ar ochr y ffordd ym Methel, yn benodol wrth y goleuadau traffig dros dro.
ii) Roedd y gwelliannau i'r llwybrau troed yn ardal Cefnddwysarn wedi cael eu croesawu ond roedd angen ail edrych ar leoliad y cerrig a oedd wedi cael eu gosod wrth y gamfa ar y llwybr rhwng Bryniau a Rhydywernen.
iii) Cais i osod giat yn lle'r gamfa ar y llwybr sy'n cychwyn o bentref Sarnau i gyfeiriad Cefnddwysarn.
iv) Cwynion fod ceffylau yn cael eu gadael i grwydro'r ffyrdd gwledig ar gyrion pentref Llandderfel.
v) Angen clirio'r chwyn wrth y gwlïau o gwmpas pentref Frongoch.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Tachwedd 4ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.



Arwyddwyd: ………………………………………….  Dyddiad: …………………………………..